

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Devon Place 7 Day Dental, Bwrdd
Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Dyddiad yr arolygiad: 28 Ionawr 2025

Dyddiad cyhoeddi: 28 Ebrill 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](http://www.agic.org.uk) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	13
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	18
4.	Y camau nesaf	21
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	22
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	23
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	26

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Devon Place 7 Day Dental, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 28 Ionawr 2025.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr gofal iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o chwe holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd wyth gan y staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd gennym fod y staff yn Devon Place 7 Day Dental yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w cleifion.

Gwelsom fod y staff yn trin y cleifion mewn modd cwrtais, cyfeillgar a phroffesiynol.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir yn 'dda iawn'.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Darparu gwybodaeth hybu iechyd i gleifion
- Sicrhau bod y staff yn deall gofynion y Ddyletswydd Gonestrwydd
- Adolygu lefel darpariaeth y gwasanaeth cyfrwng Cymraeg
- Sicrhau bod y wybodaeth i gleifion ar gael i'r rhai heb fynediad digidol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwefan llawn gwybodaeth, sy'n galluogi cleifion i drefnu apwyntiadau ar-lein
- Roedd mesurau ar waith i helpu pobl sy'n defnyddio cadair olwyn a chleifion ag anawsterau symudedd
- Darpariaeth dda o gyfleusterau ac amseroedd agor i alluogi cleifion i gael gwasanaethau deintyddol.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y safle mewn cyflwr da ar y cyfan, gyda thystiolaeth o waith adnewyddu a gwella parhaus. Roedd y deintyddfeydd yn cynnwys digon o gyfarpar ac yn addas at y diben.

Roedd gweithdrefnau clir ac effeithiol ar waith i sicrhau bod offer deintyddol yn cael ei ddihalogi a'i sterileiddio. Roedd ystafelloedd ar wahân yn cael eu defnyddio i ddihalogi, ac mae hyn yn arfer dda yn ein barn ni.

Cymerodd y practis ran mewn cynlluniau amrywiol i fonitro a gwella darpariaeth y gwasanaeth.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Roedd angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â mesurau diogelwch tân, gan gynnwys diweddarau'r asesiad risg tân a sicrhau bod y staff wedi cael hyfforddiant diweddar.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Adolygu a diweddarau'r Asesiad Risg Iechyd a Diogelwch
- Diweddarau'r ffeil Diogelu rhag Ymbelydredd i sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol ar gael
- Rhoi polisi ar waith i reoli afiechydon a drosglwyddir drwy anadlu
- Cofnodi tymheredd oergelloedd a ddefnyddir i storio meddyginiaethau yn ddyddiol.
- Sicrhau bod cofnodion cleifion yn cynnwys opsiynau triniaeth a chynlluniau wedi'u llofnodi yn gyson.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cydymffurfiaeth dda â gofynion hyfforddiant gorfodol ar gyfer y staff
- Roedd trefniadau priodol ar waith i ymdrin ag argyfyngau meddygol
- Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i helpu i sicrhau gofal diogel ac effeithiol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd gan Devon Place 7 Day Dental linellau atebolrwydd clir. Y prif ddeintydd oedd yn berchen ar y practis, ac yn cael ei helpu gan staff i reoli'r practis a llywodraethiant clinigol.

Roedd y tîm o staff yn cydweithio'n dda â'i gilydd ac yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'w cleifion.

Roedd cofnodion y staff yn cael eu cynnal yn dda, a gwelsom dystiolaeth gyffredinol dda o hyfforddiant diweddaraf yn unol â'r gofynion rheoliadol.

Gwelsom dystiolaeth o gyfarfodydd tîm rheolaidd, arfarniadau staff a'r defnydd o gynlluniau datblygu personol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau y caiff polisïau a gweithdrefnau eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd gweithdrefnau priodol ar waith ar gyfer recriwtio staff

- Ymrwymiad da i fonitro a gwella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith wedi'u nodi yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Cwblhaodd chwe chlaf holiadur AGIC, gyda'r ymatebion a'r sylwadau a gafwyd yn gadarnhaol ar y cyfan.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Mae popeth fel pin mewn papur.”

“Ni allaf ganmol y practis hwn ddigon. Mae'r staff mor barod eu cymwynas, yn gyfeillgar a phroffesiynol yn eu rolau, o staff y dderbynfa i'r deintyddion, y nyrsys a'r hylenydd. Rwy'n eu hargymell i'm teulu a'm ffrindiau. Maen nhw fel ffrindiau'r teulu.”

“Mae'r practis yn mynd gam ymhellach i gefnogi fy nhriniaeth a'm gofal deintyddol. Rwy'n teimlo fy mod yn cael clust i wrando arnaf pan fydd gennyf gwestiynau neu sylwadau a chymerir camau cadarnhaol yn hyn o beth. Byddwn yn argymell y practis deintyddol hwn i eraill.”

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion

Roedd gan y practis lyfryn gwybodaeth i gleifion, sy'n darparu gwybodaeth am y practis, gan gynnwys manylion staff a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol (CDC). Ni welwyd bod unrhyw lyfrynau yn cael eu harddangos, ond sicrhodd y staff eu bod ar gael yn yr ardal aros yn ystod yr arolygiad. Ymdriniwyd â hyn o dan Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.

Roedd gwefan y practis yn cynnwys gwybodaeth yn hybu iechyd y cleifion, ond nid oedd unrhyw wybodaeth yn amlwg yn y practis. Rydym yn argymell mynd i'r afael â hyn, er mwyn galluogi cleifion heb fynediad i ddyfais ddigidol i gael gafael ar y wybodaeth.

Rhaid darparu gwybodaeth addas i'r rheolwr cofrestredig yn y practis er mwyn hyrwyddo iechyd y geg ac iechyd cyffredinol i gleifion.

Roedd arwyddion dim smygu yn cael eu harddangos yn glir, a oedd yn dangos bod y safle yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ynglŷn â mangreoedd di-fwg.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC fod y staff wedi esbonio iechyd y geg yn glir a'u bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal ar sut i gynnal iechyd y geg da.

Gofal urddasol a pharchus

Gwelsom fod drysau'r ardaloedd clinigol yn cael eu cadw ar gau yn ystod triniaethau ac roedd bleinds ar y ffenestri allanol er mwyn sicrhau preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Roedd ystafelloedd preifat ar gael i ddarparu ar gyfer cleifion a oedd eisiau trafodaeth gyfrinachol.

Roedd gan y practis bolisi cynhwysfawr ar y Ddyletswydd Gonestrwydd. Fodd bynnag, er bod rhai aelodau o'r staff yn deall yr egwyddorion, nid oeddent yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau o dan y Ddyletswydd Gonestrwydd.

Roedd prisiau triniaethau ar gyfer triniaethau preifat a thriniaethau'r GIG yn cael eu harddangos yn yr ardal aros.

Gwelwyd bod egwyddorion moesegol craidd y practis, fel y'u nodwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, yn cael eu harddangos yn yr ardal aros. Mae'r egwyddorion yn nodi'r hyn y dylai cleifion ei ddisgwyl gan weithiwr deintyddol proffesiynol.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno'n gryf eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion chwe claf a chadarnhawyd bod gwybodaeth adnabod a hanes meddygol priodol yn cael eu cofnodi.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC fod y staff wedi rhoi digon o wybodaeth iddynt ddeall pa opsiynau triniaeth oedd ar gael, ynghyd â'u risgiau a'u manteision.

Amserol

Gofal amserol

Dyweddodd y staff wrthym fod system anfon neges ar unwaith ar waith i'r rhai a oedd yn gweithio yn y deintyddfeydd er mwyn rhoi gwybod i staff y dderbynfa am unrhyw oedi. Byddai'r cleifion wedyn yn cael gwybod am yr oedi ar lafar ac yn cael cynnig yr opsiwn i aildrefnu'r apwyntiad pe baent yn dymuno gwneud hynny.

Roedd modd gweld oriau agor y practis, ynghyd â rhifau ffôn i'w defnyddio y tu allan i oriau neu mewn argyfwng, i'w gweld y tu allan i'r practis.

Gallai cleifion drefnu apwyntiadau dros y ffôn, yn bersonol neu drwy wefan y practis.

Dyweddodd y staff wrthym fod slotiau ar gael yn yr amserlen i ddarparu ar gyfer cleifion yr oedd angen triniaeth frys arnynt ac roedd cleifion argyfwng yn arfer cael eu gweld o fewn 24 awr. Roedd staff y dderbynfa wedi cael hyfforddiant mewn nysio deintyddol a dywedon nhw y byddent yn blaenoriaethu apwyntiadau brys yn seiliedig ar symptomau'r cleifion a'u hanghenion clinigol.

Dyweddodd pob un o'r rhai a gwblhaodd holiadur AGIC ei bod naill ai'n 'hawdd iawn' neu'n 'eithaf hawdd' cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt. Fodd bynnag, nid oedd un ymatebydd yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaethau y tu allan i oriau os bydd argyfwng.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Roedd swm cyfyngedig iawn o wybodaeth ar gael yn y Gymraeg ac nid oedd y 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg yn cael ei roi ar waith.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ofyn am gymorth gan y Bwrdd Iechyd a rhoi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ar waith, sy'n briodol i anghenion iaith eu cleifion.

Roedd gwasanaethau cyfieithu 'Language Line' ar gael i'r staff pe bai eu hangen ar gyfer cleifion nad ydynt yn siarad Saesneg.

Hawliau a chydraddoldeb

Gwelsom fod polisi bwllo ac aflonyddu ar waith, a oedd yn cynnwys nodweddion gwarchodedig, mathau o aflonyddu, safonau ymddygiadau a sut i roi gwybod am unrhyw faterion neu eu huwchgyfeirio.

Dyweddodd y staff wrthym y gellid cofnodi enwau a rhagenwau a ffefrir yng nghofnodion y cleifion, er mwyn sicrhau bod cleifion trawsryweddol yn cael eu trin â pharch.

Roedd rhai addasiadau wedi'u gwneud ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadair olwyn a chleifion ag anawsterau symudedd. Roedd modd trefnu mynediad i gadair olwyn drwy hysbysiad ymlaen llaw, gyda mynediad drwy gefn yr adeilad a defnyddio ramp dros dro lle roedd newid i lefel y llawr. Roedd toiled rhywedd cymysg ar gael i gleifion ar y llawr gwaelod.

Roedd pedair deintyddfa ar y llawr gwaelod, a phe bai angen i gleifion gael eu trin yn y deintyddfeydd i lawr y grisiau neu pe bai'n well ganddynt hynny, byddai hyn yn cael ei nodi yn eu cofnodion.

Roedd gan bedair cadair yn yr ardal aros i lawr y grisiau freichiau i helpu'r rhai ag anawsterau symudedd.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Gwnaethom adolygu trefniadau diogelwch tân a gwelsom feysydd pryder a allai beri risg i ddiogelwch cleifion. Roedd yr asesiad risg tân wedi darfod, nid oedd Adroddiad ar Gyflwr Gosodiadau Trydanol (EICR) ac roedd hyfforddiant diogelwch tân y rhan fwyaf o'r staff wedi darfod. Yn ogystal, nid oedd digon o dystiolaeth o ymarferion tân, profion o larymau tân na gwiriadau bod y llwybrau dianc rhag tân yn cael eu cadw'n glir. Ymdriniwyd â'r mater hwn o dan broses AGIC ar gyfer sicrwydd ac ymdrin ag achosion o ddiffyg cydymffurfio ar unwaith a chyfeirir ato yn [Atodiad B](#) i'r adroddiad hwn.

Gwnaethom gynghori unwaith y bydd asesiad risg tân ac EICR wedi'i gynnal, dylid mynd i'r afael ag unrhyw gamau a nodwyd mewn modd amserol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau yr eir i'r afael â'r camau a nodwyd yn yr asesiad risg tân a'r EICR.

Roedd y safle yn lân ar y cyfan ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, gyda thystiolaeth bod gwaith adnewyddu'n cael ei wneud.

Gwelsom dystiolaeth o Brofion Offer Cludadwy cyfredol ac archwiliad diogelwch nwy blynyddol.

Roedd Tystysgrif Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr a phoster lechyd a Diogelwch yn y Gwaith cyfredol wedi'u harddangos. Gwelsom fod trefniadau priodol ar waith ar gyfer trin sylweddau y mae'r rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i lechyd yn berthnasol iddynt.

Roedd Asesiad Risg lechyd a Diogelwch ar waith. Fodd bynnag, roedd angen diweddaru hwn i sicrhau bod pob perygl, risg a mesur rheoli wedi'u nodi a bod y cyfeiriadau at ddeddfwriaeth yn gyfredol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod adolygiad a diweddariad llawn o Asesiad Risg lechyd a Diogelwch y practis yn cael ei gynnal.

Gwelsom dystiolaeth o bolisiau a gweithdrefnau am gynnal y safle a'r cyfarpar. Roedd hyn yn cynnwys cyfarpar a oedd yn cael ei gefnogi gan gontractau cynnal a chadw a bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal ar systemau nwy a thrydanol. Roedd un ddogfen ('monitoring the quality and suitability of facilities and

equipment maintenance') yn amlinellu'r cyfrifoldebau i gynnal gwiriadau a sut i roi gwybod am y rhain er mwyn eu hatgyweirio neu ddisodli.

Roedd Cynllun Parhad Busnes ar waith. Gwnaethom argymhell ychwanegu rhestr o rifau cyswllt mewn argyfwng at y cynllun neu sicrhau eu bod ar gael i bob aelod o'r staff fel arall, er mwyn helpu mewn achos o argyfwng.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod rhestr o rifau cyswllt mewn argyfwng ar gael yn rhwydd i'r holl staff, er mwyn helpu gyda pharhad busnes.

Roedd y toiled rhywedd cymysg i gleifion yn cynnwys cyfleusterau golchi a sychu dwylo addas, uned gwaredu eitemau mislif a chyfleusterau newid cewynnau.

Roedd rhai ardaloedd cyhoeddus yn cael eu recordio ar system teledu cylch cyfyng. Roedd hyn yn cael ei ddangos yn glir i gleifion drwy arwyddion ac roedd polisi teledu cylch cyfyng ar waith.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom nodi nad oedd neb wrth ddesg y dderbynfa amser cinio ac roedd y drws ffrynt heb ei gloi. Roedd hyn yn cyflwyno risg y gallai pobl fynd i mewn i'r safle heb oruchwyliaeth a mynd i ddeintyddfeydd ac ardaloedd eraill.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff mynediad i'r safle ei reoli os na fydd y staff ar gael i oruchwyllo ardal y dderbynfa.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd trefniadau i sicrhau bod dulliau rheoli heintiau o safon dda ar waith. Roedd y rhain yn cynnwys polisiâu a gweithdrefnau rheoli heintiau priodol ac arweinydd rheoli heintiau dynodedig. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd gan y practis bolisi priodol ar waith i reoli afiechydon a drosglwyddir drwy anadlu.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod polisi ar waith ar gyfer rheoli afiechydon a drosglwyddir drwy anadlu.

Roedd ystafelloedd dynodedig ar gyfer dihalogi a sterileiddio offer deintyddol, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru WHTM 01-05. Roedd y gweithdrefnau ar gyfer prosesu, dihalogi a sterileiddio offer deintyddol yn briodol ac roedd y staff yn eu deall yn dda.

Gwelsom fod cyfarpar dihalogi'n cael ei ddefnyddio'n ddiogel ac yn effeithiol, ac yn cael ei archwilio'n rheolaidd. Nid oedd modd dod o hyd i rai dogfennau sy'n ymwneud ag arolygu a gwasanaethu awtoclafau a chywasgwyr ar y diwrnod. Darparwyd tystiolaeth o'r rhain i AGIC yn fuan ar ôl yr arolygiad.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cofnodion sy'n ymwneud ag arolygu a gwasanaethu cyfarpar yn gyflawn ac y cânt eu storio'n briodol.

Gwnaethom edrych ar gofnodion staff a gwelsom fod pob aelod o staff clinigol wedi cael brechlynnau yn erbyn Hepatitis B.

Gwnaethom adolygu'r trefniadau ar gyfer gwaredu gwastraff, gan gynnwys gwastraff clinigol, a gwelsom eu bod yn briodol.

Roedd y seddi yn ardaloedd aros y cleifion mewn cyflwr da gyda deunydd y gellid ei sychu'n lân.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC fod y practis yn 'lân iawn'.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd polisi rheoli meddyginiaethau ar waith, a gweithdrefnau diogel er mwyn defnyddio, storio a gwaredu meddyginiaethau. Gwnaethom gynghori bod rhagor o fanylion yn cael eu cofnodi yn y cofnodlyfrau meddyginiaeth, fel nifer y tabledi a ddosbarthwyd.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y cofnodlyfrau meddyginiaeth yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol.

Roedd dwy oergell ddynodedig yn cael eu defnyddio i storio meddyginiaethau. Fodd bynnag, nid oedd y tymereddau yn cael eu gwirio a'u cofnodi bob dydd.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod tymheredd yr oergelloedd a ddefnyddir i storio meddyginiaethau yn cael ei wirio a'i gofnodi bob dydd.

Roedd cyfarpar ar waith i reoli argyfyngau meddygol, gyda'r holl gyfarpar a meddyginiaethau yn gyfredol. Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant y staff a gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar adfywio cardiopwlmonaidd (CPR). Roedd dau aelod o'r staff wedi cael eu penodi'n swyddogion cymorth cyntaf ac roeddent wedi cael yr hyfforddiant priodol a chyfredol.

Diogelu plant ac oedolion

Y prif ddeintydd oedd yr arweinydd diogelu dynodedig. Roedd polisiâu a gweithdrefnau diogelu oedolion a phlant ar waith ac roeddent ar gael i bob aelod o'r staff. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod rhywfaint o'r wybodaeth wedi darfod ac nid oedd yn cyfeirio at Weithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan.

Aed i'r afael â hyn yn ystod yr arolygiad, gan waredu'r wybodaeth a oedd wedi darfod a'r arweinydd diogelu yn gosod ac yn rhannu rhaglen ffôn Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Gwnaethom argymhell bod siartiau llif diogelu a manylion cyswllt diogelu ar gael yn hawdd i'r staff, fel rhoi copïau wedi'u hargraffu yn yr ardaloedd i'r staff, er mwyn gallu cyfeirio atynt yn hawdd.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol:

- **bod gweithdrefnau diogelu yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn gyfredol.**
- **Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod siartiau llif diogelu a manylion cyswllt ar gael yn hawdd i bob aelod o'r staff.**

Gwnaethom edrych ar gofnodion sampl o staff a gwelsom dystiolaeth eu bod wedi cael hyfforddiant priodol a chyfredol ar ddiogelu plant ac oedolion.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Ar y cyfan, gwelsom fod y cyfarpar clinigol yn y practis yn ddiogel, mewn cyflwr da ac yn addas at y diben a fwriadwyd.

Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant y staff a gwelsom fod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol).

Gwnaethom edrych ar ddogfennaeth yn ymwneud â defnyddio cyfarpar pelydr-X, a chawsom sicrwydd bod y cyfarpar yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel. Roedd manylion o ardaloedd a reolir, asesiadau risg, rheolau lleol a Chynghorydd Diogelu rhag Ymbelydredd dynodedig). Fodd bynnag, nodwyd gennym fod angen gwella rhai meysydd mewn perthynas â defnyddio cyfarpar ymbelydredd.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol

- **Bod gan y rhestr o gyfarpar pelydr-X yr holl fanylion sy'n ofynnol**
- **Mae rheolau lleol yn benodol i bob maes a reolir**
- **Mae gwaith papur ar gynnal a chadw a phrofi yn glir ac yn gyflawn**
- **Caiff cofnodion eu cadw i ddangos y caiff staff hyfforddiant penodol i gyfarpar (fel Topograffi Gyfrifiadurol Pelydr Côn)**
- **Caiff proses sicrhau ansawdd ei chynnal ar waith prosesu digidol**
- **Mae gwybodaeth am risgiau a manteision ar gael yn rhwydd i gleifion.**

Roedd y practis yn cyflawni rhywfaint o waith cartref. Dywedodd y staff wrthym fod trefniadau yswiriant priodol ar waith, gan gynnwys yswiriant i gario silindrau ocsigen mewn cerbyd. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen cyfarpar addas i

reoli argyfyngau meddygol hefyd. Rhoddodd perchennog y practis wybod i ni'n syth ar ôl yr arolygiad eu bod wedi penderfynu rhoi'r gorau i waith ymweld â chartrefi, a hynny ar unwaith, ac yn hynny o beth, nid oedd angen unrhyw gamau pellach. Ymdriniwyd â hyn o dan Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Nodwyd gennym fod trefniadau diogel ar waith yn y practis i dderbyn cleifion, eu hasesu, rhoi diagnosis iddynt a'u trin. Esboniodd y staff sut y byddent yn dod o hyd i ganllawiau a chyngor proffesiynol ac yn eu dilyn lle byddai angen gwneud hynny, gan gynnwys canllawiau a chyngor gan Gymdeithas Ddeintyddol Prydain.

Roedd y practis yn defnyddio rhestrau gwirio'r Safonau Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwithiol er mwyn lleihau'r risg o dynnu'r dant anghywir.

Cofnodion cleifion

Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cadw'n electronig ac yn unol â'r polisi rheoli cofnodion.

Gwnaethom edrych ar sampl o 6 o gofnodion cleifion. Ar y cyfan, roedd y dulliau cofnodi gwybodaeth yn dda. Fodd bynnag, rhoesom wybod bod angen mwy o gysondeb ar rai agweddau ar y cofnodion.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cofnodion cleifion yn cynnwys nodiadau am opsiynau trin, cynlluniau trin wedi'u llofnodi, cyfiawnhau radiograffau a dewis iaith yn gyson.

Effeithlon

Effeithlon

Roedd y safle a'r cyfleusterau yn briodol ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir. Dywedodd y staff wrthym fod cleifion yr oedd angen gofal brys arnynt yn cael eu blaenoriaethu a'u bod yn anelu at ddiwallu eu hanghenion lle y bo'n bosibl.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan staff

Ymatebodd wyth aelod o'r staff i holiadur AGIC. Roedd sylwadau mewn perthynas â'r cyfleusterau, glendid y safle, lefelau staffio a hyfforddiant i gyd yn gadarnhaol. Cadarnhaodd y staff eu bod yn cael arfarniadau rheolaidd ac nid oeddent yn wynebu gwahaniaethu yn y gweithle. Cytunodd yr holl ymatebwyr yn gryf mai gofal cleifion oedd prif flaenoriaeth y practis.

Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

"Mae'r practis cyfan yn cael ei redeg i safon uchel iawn. Un rwy'n falch iawn i fod yn rhan ohono. Darparu gofal deintyddol o safon uchel yw'n blaenoriaeth bennaf bob amser."

"Mae'r practis hwn a'r staff yn darparu gwasanaeth proffesiynol ac o safon dda yn fy marn i. Mae'r amgylchedd yn wych ac rwy'n ddiolchgar am gael gweithio gyda thîm mor anhygoel"

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Roedd strwythurau rheoli clir ar waith, ac roedd y practis yn gweithredu o dan gyfarwyddyd y prif ddeintydd, a oedd hefyd yn berchen ar y practis.

Gwelsom ymrwymiad clir i ddarparu gwasanaeth o safon uchel i gleifion. Roedd amrywiaeth dda o bolisiau a gweithdrefnau ar waith. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd dyddiad ar rai ohonynt a bod angen eu hadolygu a'u diweddarau.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi prosesau ar waith i wneud yn siŵr y caiff polisiau a gweithdrefnau eu hadolygu'n rheolaidd.

Gwelsom dystiolaeth bod cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal a bod cofnodion yn cael eu rhannu. Dangosodd cofnodion y staff bod arfarniadau'n cael eu cynnal yn rheolaidd a bod Cynlluniau Datblygu Personol yn cael eu defnyddio, i reoli perfformiad a nodi gofynion hyfforddiant.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Roedd cymysgedd da o staff yn cael ei ddefnyddio i sicrhau symudiad effeithlon drwy lwybrau trin, gan gynnwys hylenydd a therapydd.

Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer cyflogi staff, a oedd yn nodi'r gwiriadau cyn cyflogi y dylid eu cynnal.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion pedwar aelod o staff a gwelsom dystiolaeth bod staff clinigol cymwysedig wedi'u cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, bod ganddynt yswiriant indemniad proffesiynol a'u bod wedi'u brechu rhag Hepatitis B. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod y practis wedi gofyn am eirdaon cyn cyflogi a bod gwiriadau'n cael eu cynnal drwy ddefnyddio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Dywedodd y staff wrthym fod cleifion yn cael eu hannog i adael adborth drwy adolygiadau ar-lein. Yn ogystal, ceisiodd y practis farn y cleifion yn rheolaidd drwy ddefnyddio arolygon (papur ac electronig).

Nid oedd gan y practis ddull i ddangos y gweithredwyd ar yr adborth gan gleifion.

Rydym yn argymhell y dylai'r practis roi gwybod i'r cleifion pan fydd camau wedi'u cymryd mewn ymateb i adborth, fel poster 'dywedoch chi, gwnaethom ni'.

Roedd gweithdrefn gwyno glir a chynhwysfawr ar waith. Roedd hyn i'w weld yn glir, yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn yr ardal aros. Roedd y weithdrefn yn cynnwys manylion cyswllt, amserlenni priodol ar gyfer ymateb a sut i uwchgyfeirio'r mater pe bai angen, ynghyd â manylion cyrff allanol.

Gwnaethom nodi nad oedd y weithdrefn yn cynnwys manylion y gwasanaeth eirioli Llais, a dylid cynnwys hyn.

Dylai'r rheolwr cofrestredig adolygu a diweddarau'r weithdrefn gwyno er mwyn cynnwys manylion am y gwasanaeth eirioli, Llais.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Roedd y practis yn defnyddio systemau electronig i reoli cofnodion y cleifion, gyda pholisi rheoli cofnodion priodol.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom dystiolaeth fod archwiliadau clinigol ac anghlinigol yn cael eu cynnal. Roedd yn werth nodi bod y practis yn defnyddio rhaglenni sicrhau ansawdd, gan gynnwys Cynllun Arferion Da Cymdeithas Ddeintyddol Prydain, DenPlan Excel a'r pecyn cymorth Hunanasesu Sicrwydd Ansawdd.

Fodd bynnag, nid oedd unrhyw bolisiau na gweithdrefnau ar waith am drefniadau'r practis i archwilio ac asesu ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn rheolaidd.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi polisiau a gweithdrefnau ar waith i nodi trefniadau'r practis i fonitro, asesu ac archwilio ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn rheolaidd.

Roedd systemau ar waith i gofnodi a hysbysu digwyddiadau diogelwch cleifion. Dywedodd y staff wrthym y byddai unrhyw wersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu mewn cyfarfodydd tîm

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Dywedodd y staff wrthym fod prosesau rhyngweithio â phartneriaid y system yn digwydd dros y ffôn neu dros e-bost fel arfer, a bod atgyfeiriadau'n cael eu cyflwyno gan ddefnyddio system ar-lein.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Roedd gan y practis lyfryn gwybodaeth i gleifion, sy'n darparu gwybodaeth am y practis, gan gynnwys manylion staff a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol (CDC. Nid oedd unrhyw lyfrynnau'n cael eu harddangos yn y practis.	Nid oedd gwybodaeth am y practis, y staff a'r gwasanaethau ar gael yn hawdd i gleifion.	Codwyd hyn gyda'r prif ddeintydd a staff y dderbynfa.	Gwnaeth y staff gopïau o'r llyfryn gwybodaeth i gleifion oedd ar gael yn yr ardal aros yn ystod yr arolygiad.
Roedd y practis yn cyflawni rhywfaint o waith cartref. Gwnaethom nodi bod angen cyfarpar addas i reoli argyfyngau meddygol wrth gyflawni'r gwaith hwn.	Gallai'r diffyg cyfarpar beri mwy o risg i gleifion a oedd yn cael triniaeth y tu allan i'r practis ac a oedd yn mynd trwy argyfwng meddygol.	Cafodd hyn ei godi gyda'r prif ddeintydd.	Penderfynodd perchennog y practis i roi'r gorau i waith cartref ar unwaith.

Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Devon Place 7 Day Dental

Dyddiad yr arolygiad: 28 Ionawr 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Roedd dyddiad yr asesiad risg tân hwn wedi mynd heibio ac nid oedd yn cynnwys pob ardal o'r safle.	Cynnal asesiad risg tân.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 22(4)	Bydd Blackwood Fire yn cynnal asesiad risg newydd am 10am ar 11.02.25	Dr Rachael Gill-Randall	Un mis
2. Nid oedd digon o dystiolaeth i ddangos bod ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd.	Sicrhau bod ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd a'u cofnodi.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 22(4)	Gwnaed yr un diwethaf ar 24.12.24 yn y cyfarfod staff	Dr Rachael Gill-Randall	Cyfarfod staff mis Rhagfyr eleni
3. Nid oedd digon o dystiolaeth i ddangos bod profion yn cael eu cynnal ar larymau tân yn rheolaidd.	Sicrhau bod larymau tân yn cael eu profi'n rheolaidd a'u cofnodi.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 22(4)	Yn wythnosol	Elisha Burton	Yn wythnosol, dechreuodd ar 30.01.25

4.	Nid oedd Adroddiad ar Gyflwr Gosodiadau Trydanol o fewn y pum mlynedd diwethaf.	Trefnu i gael Adroddiad ar Gyflwr Gosodiadau Trydanol.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 22(4)	Bydd y trydanwyr yn cynnal Adroddiad ar Gyflwr Gosodiadau Trydanol ddydd Sadwrn 8.02.25	Dr Rachael Gill-Randall	2 fis
5.	Nododd yr adolygiad o gofnodion hyfforddiant y staff fod nifer sylweddol o staff (11 allan o 19) heb gwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân yn ystod y deuddeg mis diwethaf.	Sicrhau bod yr holl staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 22(4)	Mae pob aelod o'r staff bellach wedi cwblhau hwn.	Dr Rachael Gill-Randall	Caiff ei adolygu yn flynyddol
6.	Roedd deunyddiau adeiladu yn cael eu storio ar y grisiau a oedd yn arwain at un o'r allanfeydd tân, a allai gyflwyno perygl o argyfwng.	Sicrhau bod y llwybrau dianc rhag tân yn cael eu harchwilio'n rheolaidd a'u cadw'n glir.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 22(4)	Symudwyd 2 strïbed bach o bren 31.01.25	Dr Rachael Gill-Randall	Wedi'i gwblhau

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Dr Rachael Gill-Randall

Teitl swydd: Perchennog y practis/Prif Ddeintydd

Dyddiad: 04.02.25

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Devon Place 7 Day Dental

Dyddiad yr arolygiad: 28 Ionawr 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Roedd gwefan y practis yn cynnwys gwybodaeth yn hybu iechyd y cleifion, ond nid oedd unrhyw wybodaeth yn amlwg yn y practis. Nid aethpwyd i'r afael ag anghenion cleifion heb fynediad digidol.	Rhaid darparu gwybodaeth addas i'r rheolwr cofrestredig yn y practis er mwyn hyrwyddo iechyd y geg ac iechyd cyffredinol i gleifion.	Safonau Iechyd a Gofal Ansawdd 2023, 4.2 Gwybodaeth Cleifion	Rydym wedi prynu taflenni gwybodaeth i gleifion am iechyd deintyddol ac iechyd cyffredinol ac wedi'u gosod yn y 7 deintyddfa.	Dr Rachael Gill-Randall	Maent eisoes wedi'u prynu ac yn y 7 deintyddfa
2.	Roedd gan y practis bolisi cynhwysfawr ar y Ddyletswydd Gonestrwydd. Fodd bynnag, er bod rhai aelodau o'r staff yn	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau o dan y Ddyletswydd Gonestrwydd.	Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020	Cynhaliwyd cyfarfod staff amser cinio ar ôl arolygiad AGIC ac aethpwyd i'r afael â phob agwedd ar y	Dr Rachael Gill-Randall	Cynhaliwyd ar 29 Ionawr 2025

	deall yr egwyddorion, nid oeddent yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth.		Rheoliadau'r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd (Cymru) 2023	Ddyletswydd Gonestrwydd.		
3.	Swm cyfyngedig iawn o wybodaeth oedd ar gael yn Gymraeg, ac nid oedd y Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn cael ei roi ar waith.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ofyn am gymorth gan y Bwrdd lechyd i roi'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg ar waith, sy'n briodol i anghenion iaith eu cleifion.	Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011	Rydym yn defnyddio cwmni, sef BLA, i gyfieithu dogfennau i'r Gymraeg. Mae gennym google translate hefyd ac mae gan rai ohonom rywfaint o Gymraeg. Hyd yma, ni fu angen i ni ei ddefnyddio.	Dr Rachael Gill-Randall	Trafodwyd gyda staff 29 Ionawr 2025
4.	Gwnaethom gynghori unwaith y bydd asesiad risg tân ac EICR wedi'i gynnal, dylid mynd i'r afael ag unrhyw gamau a nodwyd mewn modd amserol.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau yr eir i'r afael â'r camau a nodwyd yn yr asesiad risg tân a'r EICR.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 22(4)	Mae'r asesiad risg tân wedi'i gynnal ac rydym wedi derbyn yr adroddiad. Bydd Swyddog Asesu Risg Tân Blackwood Fire yn mynd i'r afael ag unrhyw faterion a gwaith diweddar sydd angen ei gynnal ar yr adroddiad hwn.	Dr Rachael Gill-Randall	Cynhaliwyd asesiad risg tân Cynhaliwyd EICR ac mae'r gosodiad trydanol newydd yn mynd rhagddo ar

				Mae'r EICR wedi'i asesu ac mae'r holl waith weirio hen i lawr y grisiau wrthi'n cael ei newid bob penwythnos gan Mr Leighton Francis, sy'n drydanwr masnachol EICR cymwysedig.		lawr gwaelod y practis.
5.	Roedd Asesiad Risg Iechyd a Diogelwch ar waith. Fodd bynnag, roedd angen diweddarau hwn i sicrhau bod pob perygl, risg a mesur rheoli wedi'u nodi a bod y cyfeiriadau at ddeddfwriaeth yn gyfredol.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod adolygiad a diweddariad llawn o Asesiad Risg Iechyd a Diogelwch y practis yn cael ei gynnal.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 8(1)(k)	Mae'r asesiad risg iechyd a diogelwch bellach wedi'i ddiweddarau	Dr Rachael Gill-Randall	Wedi'i wneud
6.	Roedd Cynllun Parhad Busnes ar waith. Gwnaethom argymhell ychwanegu rhestr o rifau cyswllt mewn argyfwng at y cynllun neu sicrhau eu bod ar gael i bob aelod o'r	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod rhestr o rifau cyswllt mewn argyfwng ar gael yn rhwydd i'r holl staff, er mwyn helpu gyda Pharhad Busnes.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 8(1)(o)	Mae'r holl rifau cyswllt mewn argyfwng wedi'u hychwanegu at y cynllun parhad busnes ac at gyfeiriadur ffôn y dderbynfa.	Dr Rachael Gill-Randall	Caiff ei wneud yn syth ar ôl arolygiad AGIC.

	staff fel arall, er mwyn helpu mewn achos o argyfwng.					
7.	Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom nodi nad oedd neb wrth ddesg y dderbynfa ac roedd y drws ffrynt heb ei gloi. Roedd hyn yn cyflwyno risg y gallai pobl fynd i mewn i'r safle heb oruchwyliaeth a mynd i ddeintyddfeydd ac ardaloedd eraill.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff mynediad i'r safle ei reoli os na fydd y staff ar gael i oruchwyllo ardal y dderbynfa.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 22(2)(a)	Yn ystod y cyfarfod staff ar 29 Ionawr 2025, cafodd gwersi eu dysgu a phan fo'r ddesg yn wag, caiff y drws gwydr ei gloi - gan wella diogelwch.	Dr Rachael Gill-Randall	Esboniwyd ac adolygwyd cyfarfod staff 29 Ionawr 2025
8.	Nid oedd gan y practis bolisi priodol ar waith ar gyfer rheoli afiechydon a drosglwyddir drwy anadlu.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod polisi ar waith ar gyfer rheoli afiechydon a drosglwyddir drwy anadlu.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 8 (1) (m)	Mae gennym ddogfen bolisi ar gyfer rheoli afiechydon a drosglwyddir drwy anadlu a ddiwygiwyd ym mis Mawrth 2025	Dr Rachael Gill-Randall	Crëwyd a diweddarwyd y ddogfen bolisi
9.	Ni ellid dod o hyd i rai dogfennau a oedd yn ymwneud ag arolygu a gwasanaethu awtoclafau a chywasgwyr yn ystod	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cofnodion sy'n ymwneud ag arolygu a gwasanaethu cyfarpar yn gyflawn ac y cânt eu storio'n briodol.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 13(2)(a)	Cafodd y rhain eu ffeilio'n anghywir ac mae'r ddogfen bellach yn y lle cywir	Dr Rachael Gill-Randall	Daethpwyd o hyd iddynt a chawsant eu ffeilio'n gywir

	yr arolygiad. Darparwyd tystiolaeth o'r rhain i AGIC yn fuan ar ôl yr arolygiad.					
10.	Gwnaethom gynghori bod rhagor o fanylion yn cael eu cofnodi yn y cofnodlyfrau meddyginiaeth, fel nifer y tabledi a ddosbarthwyd.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y cofnodlyfrau meddyginiaeth yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 13(4)(a)	Cafodd y cofnodlyfr dosbarthu meddyginiaeth ei newid yn syth i gofnodi'r holl fanylion a oedd yn ofynnol gan yr adolygydd cymheiriaid	Dr Rachael Gill-Randall	29 Ionawr 2025
11.	Roedd dwy oergell ddynodedig yn cael eu defnyddio i storio meddyginiaethau. Fodd bynnag, nid oedd y tymereddau yn cael eu gwirio a'u cofnodi bob dydd.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod tymheredd yr oergelloedd a ddefnyddir i storio meddyginiaethau yn cael ei wirio a'i gofnodi bob dydd.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 13(4)(a)	Gwnaethom brynu 2 thermomedr digidol a dyddiadur i'r staff nyrsio lofnodi gwiriadau tymheredd.	Dr Rachael Gill-Randall	Caiff tymheredd pob oergell ei gofnodi bob dydd.
12.	Roedd polisïau a gweithdrefnau diogelu oedolion a phlant ar waith ac roeddent ar gael i bob aelod o'r staff. Fodd bynnag,	Rhaid i'r rheolwr sicrhau'r cofrestredig canlynol bod gweithdrefnau diogelu yn cael eu	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 14(1)(e)	Mae gan bob aelod o staff y gweithdrefnau diogelu diweddaraf ar eu ffôn clyfar yn unol â chyngor ein Harolygydd AGIC.	Dr Rachael Gill-Randall	Gwnaed y cyfan ar ôl y cyfarfod staff ar 29 Ionawr 2025

	gwnaethom nodi bod dyddiad rhywfaint o'r wybodaeth wedi mynd heibio. Gwnaethom hefyd argymhell y dylai'r siartiau llif diogelu a manylion cyswllt diogelu fod ar gael yn hawdd i'r staff	hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn gyfredol. Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod siartiau llif diogelu a manylion cyswllt ar gael yn hawdd i bob aelod o'r staff.				
13.	Gwnaethom edrych ar ddogfennaeth yn ymwneud â defnyddio cyfarpar pelydr-X, a chawsom sicrwydd bod y cyfarpar yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel. Fodd bynnag, gwelsom fod rhai meysydd sy'n ymwneud â defnyddio cyfarpar ymbelydredd angen eu gwella.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol - mae rheolau lleol yn benodol i bob maes a reolir - mae gan y rhestr o gyfarpar pelydr-X yr holl fanylion sy'n ofynnol - mae gwaith papur ar gynnal a chadw a phrofi yn glir ac yn gyflawn - caiff cofnodion eu cadw i ddangos y caiff staff hyfforddiant penodol i gyfarpar (fel Topograffi Gyfrifiadurol Pelydr Côn (CBCT))	Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 2017, Rheoliad 18 (1) Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017: Rheoliadau 15, 17 ac Atodlen 2(1)(i)	Mae rheolau lleol wedi cael eu hadolygu a'u ddiweddarau. Mae'r rhestr o gyfarpar pelydr-X yn gyfredol. Mae asesiad critigol o'r holl gyfarpar sy'n tynnu lluniau pelydr-X wedi'i drefnu gyda'r Cyfeiriadur Deintyddol. Mae tystysgrifau'r HOLL STAFF ar gyfer pob darn o gyfarpar y maent yn gymwysedig i'w defnyddio yn y	Dr Rachael Gill-Randall	Cafodd popeth ei argraffu a'i ffeilio yn y ffeil Radiograffeg yr wythnos yn dilyn yr arolygiad. Mae Archwiliadau Critigol y Cyfeiriadur Deintyddol

		• caiff proses sicrhau ansawdd ei chynnal ar waith prosesu digidol • mae gwybodaeth am risgiau a manteision ar gael yn rhwydd i gleifion		ffolder pelydr-X, yn ogystal â'u ffolderi eu hunain. Mae poster mewn perthynas â'r Risgiau a Manteision sy'n ymwneud â phob math o belydr-X ym mhob deintyddfa.		wedi'u cymeradwyo a'u rhoi yn y dyddiad i'w gwneud yn 2025
14.	Roedd angen mwy o gysondeb ar rai agweddau ar gofnodion y cleifion.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cofnodion cleifion yn cynnwys nodiadau am opsiynau trin, cynlluniau trin wedi'u llofnodi, cyfiawnhau radiograffau a dewis iaith yn gyson.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 20(1)	Caiff pob claf gynllun triniaeth ar bapur neu wedi'i lofnodi ar ein Clinipad. Mae gennym flwch gydag iaith wedi'i nodi arno - sef ein Blwch Archwilio SOE Exact er mwyn i gofnodi iaith y claf yn gywir. Yn y cyfarfod staff ar 29.01.25, tynnwyd sylw pob aelod o'r staff at gyfiawnhad radiograffig i beidio â'i anwybyddu, rhaid iddo gael ei lenwi.	Dr Rachael Gill-Randall	Wedi cwblhau'r cyfan Chwefror 2025

15.	Roedd amrywiaeth dda o bolisiau a gweithdrefnau ar waith. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd dyddiad ar rai ohonynt a bod angen eu hadolygu a'u diweddarau.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi prosesau ar waith i wneud yn siwr y caiff polisiau a gweithdrefnau eu hadolygu'n rheolaidd.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 8(6)	Caiff pob polisi ei adolygu'n flynyddol neu os bydd newid yn digwydd h.y. COVID-19.	Dr Rachael Gill-Randall	Diweddarwyd y cyfan yr wythnos ar ôl arolygiad AGIC
16.	Nid oedd y weithdrefn gwyno yn cynnwys manylion y gwasanaeth eirioli, Llais	Dylai'r rheolwr cofrestredig adolygu a diweddarau'r weithdrefn gwyno er mwyn cynnwys manylion am y gwasanaeth eirioli, Llais.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 21(1)	Mae'r gwasanaeth eirioli, Llais, wedi'i ychwanegu at ein polisi cwynion 'Gweithio i Wella'.	Dr Rachael Gill-Randall	Wythnos ar ôl arolygiad AGIC
17.	Nid oedd unrhyw bolisiau na gweithdrefnau ar waith am drefniadau'r practis i archwilio ac asesu ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn rheolaidd.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi polisiau a gweithdrefnau ar waith i nodi trefniadau'r practis i fonitro, asesu ac archwilio ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn rheolaidd.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 8 (1) (n)	Rydym yn cynnal archwiliadau dyddiol 1. Archwiliadau o ddeintyddfeydd 2. Archwiliadau o'r ystafell ddihalogi 3. Archwiliad Cyfrif Arian 4. Archwiliad o dymheredd yr oergelloedd staff a meddygol 5. Gwirio'r diffibriliwr	Dr Rachael Gill-Randall	Ysgrifennwyd 1 wythnos ar ôl Arolygiad AGIC

				Archwiliadau Wythnosol 1. Gwirio'r larymau tân 2. Gwiriad ocsigen Archwiliadau misol 1. Caiff ansawdd lluniau OPTs, pelydr côn, pelydr-X a phlatiau ffosffor eu gwirio hefyd. 2 Legionella. 3. Cafodd cyffuriau a dyfeisiau argyfwng a fferyllol eu gwirio. Rydym hefyd yn cynnal archwiliadau o ansawdd pelydr-x ac archwiliadau Memorandwm Technegol lechyd Cymru 01-05 yn flynyddol. Archwiliad blynyddol o Hunanasesu Sicrwydd Ansawdd. A holiaduron cynfodol drwy Denplan XL,	
--	--	--	--	---	--

				AGIC a fersiwn ein Practis ein hunain. Cynhaliwyd pob archwiliad arall fel dogfennau polisi.		
--	--	--	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Dr Rachael Gill-Randall

Swydd: Prif Glinigydd a Pherchennog y Practis Deintyddol

Dyddiad: 13 Mawrth 2025